Hawdd ei Ddeall

# Helpu plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol i ddysgu

## Plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol




Eglurhad hawdd ei ddeall yw hwn o Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru)

Chwefror 2017

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon




Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu **hysgrifennu mewn glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd unrhyw un o'r geiriau yn cael ei ddefnyddio eto yn y llyfryn bydd yn cael ei ddangos mewn ysgrifennu glas cyffredin. Os gwelwch chi eiriau mewn ysgrifennu glas cyffredin, gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl yn **Geiriau anodd** ar dudalen 39.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru.

I gael mwy o gopïau o'r fersiwn Hawdd ei Ddeall hwn cysylltwch â:



Ffôn: 029 2082 3777




e-bost: SENReforms@cymru.gsi.gov.uk

Gwefan: http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/additoinal-learning-needs-reform/?lang=cy

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn Hawdd ei Deall gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

# Cynnwys

**Tudalen**

Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn....4

Pam mae arnon ni angen newid y ddeddf....5

Beth yw anghenion dysgu ychwanegol?....6

Cynllun ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY....9

Gwneud y gorau bosibl ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY....15

Pawb yn gweithio gyda'i gilydd....18

Pan na fydd pobl yn cytuno ynghylch y cynllun....22

Rhieni sydd ddim yn gallu gwneud penderfyniadau....30

Rheolau a chyngor ynghylch y ddeddf newydd....32

Plant sy'n derbyn gofal....35

Plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw yn y ddalfa....37

Geiriau anodd....39

# Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn




Mae'r ddogfen hawdd ei deall hon yn egluro'r ddeddf newydd sy'n cael ei chynnig gan Lywodraeth Cymru ynghylch helpu plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol i ddysgu.




Yn 2015 fe anfonon ni ein syniadau ar gyfer deddf newydd allan. Fe anfonon ni'r wybodaeth allan mewn dogfen hawdd ei deall.



Fe wnaethon ni gyfarfod â llawer o bobl, gan gynnwys plant a phobl ifanc, i ofyn iddyn nhw am eu barn. Roedd y rhan fwyaf o bobl yn meddwl bod ein syniadau yn dda.



Fe ddefnyddion ni'r hyn ddywedodd pobl wrthyn ni i wneud ein deddf yn well. Cafodd newidiadau eu gwneud a chafodd y ddeddf newydd ei diweddaru.



Mae'r ddogfen hawdd ei deall hon yn dangos ble mae'r ddeddf newydd wedi'i diweddaru. Mae'n diweddaru dogfen hawdd ei deall 2015. Mae hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i chi.



Mae pwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn edrych ar y ddeddf newydd. Efallai y byddan nhw'n gwneud mwy o newidiadau cyn y byddan nhw'n cytuno â'r ddeddf newydd.



Yn fuan yn 2017 fe fyddwn ni'n gofyn i bobl am eu barn ar amserlen. Fe fyddwn ni'n defnyddio eu barn i baratoi amserlen sy'n dangos pryd y bydd y ddeddf newydd yn dechrau cael ei gweithredu.




# Pam mae arnon ni angen newid y ddeddf

Mae’r ddeddf ar gyfer addysg plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig yn 30 mlynedd oed. Mae’n hen ffasiwn.

Nid yw’n rhoi i blant a phobl ifanc y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw heddiw. Weithiau:



- bydd pobl yn gweld anghenion plentyn neu berson ifanc yn rhy hwyr



- bydd cefnogaeth yn cael ei roi yn rhy hwyr



- nid yw’r plentyn neu’r person ifanc yn cael ei gynnwys digon



- mae’n gymhleth



- mae’n ddrud iawn.



Fe edrychon ni ar rai o’r problemau yn ymwneud â’r ffordd roedd y ddeddf yn gweithio. Fe ysgrifennon ni’r syniadau hyn ar gyfer deddf newydd.

# Beth yw anghenion dysgu ychwanegol?



Mae ar rai plant a phobl ifanc angen cefnogaeth ychwanegol i ddysgu. Maen nhw’n cael eu hadnabod fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA).



Weithiau maen nhw’n cael eu hadnabod fel rhai sydd ag anabledd dysgu neu rai sydd ag anhawster dysgu.

Gall hyn gynnwys problemau â:



- darllen, ysgrifennu a deall



- gweld, clywed neu siarad



- symud o gwmpas



- emosiynau neu ymddygiad.




Nid yw anghenion addysgol arbennig yn label da. Ac nid yw’r ddeddf ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn glir iawn.




Dim ond plant a phobl ifanc hyd at 19 oed sy’n cael eu cynnwys yn y ddeddf.



Mae arnon ni eisiau dweud anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn lle hynny. Bydd hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc hyd at 25 oed.

Mae gan blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol:



- anhawster neu anabledd sy’n meddwl bod arnyn nhw angen cefnogaeth ychwanegol



- rhwystrau sy’n ei gwneud hi’n fwy anodd dysgu na phlant a phobl ifanc eraill o’r un oed, neu



- anabledd sy’n meddwl na allan nhw ddefnyddio’r ysgol neu’r coleg lleol.




Bydd dweud anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pobl ifanc hyd at 25 oed. Felly bydd person sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu bod yn unrhyw oed rhwng 0 a 25.




Bydd staff fel athrawon a gweithwyr cymdeithasol yn ôl pob tebyg yn galw hyn trwy ddefnyddio’r llythrennau A D Y. Felly o hyn ymlaen yn y ddogfen hon fe fyddwn ni’n ysgrifennu ADY.



Bydd y ddeddf newydd yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd ag ADY hyd at 25 oed. Felly fe fyddan nhw'n ei chael hi'n haws symud ymlaen i goleg ar ôl gadael ysgol. Fe fyddan nhw'n dal i gael yr un gefnogaeth yn y coleg ag yr oedden nhw yn yr ysgol.




Bydd yn rhaid i **awdurdodau lleol** ysgrifennu gwybodaeth am ADY y gall bobl gael gafael arni. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei rhoi i:



- blant a'u rhieni



- pobl ifanc




- ysgolion



- pobl sy'n rhoi cefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd ag ADY. Er enghraifft, gwasanaethau iechyd.



Yr **awdurdod lleol** yw'r Cyngor Sir. Mae'n darparu llawer o wasanaethau fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg, ffyrdd a chasglu sbwriel.

# Cynllun ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY




Bydd plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn cael cynllun. Bydd hyn yn cael ei alw'n **gynllun datblygu unigol**.

**Cynllun datblygu unigol** yw'r enw ar y cynllun newydd fydd gan bob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY.




Pan fydd yr awdurdod lleol yn paratoi'r cynllun datblygu unigol fe fyddan nhw'n penderfynu a ddylai gwasanaethau i helpu ADY y plentyn neu'r person ifanc gael ei ddarparu yn Gymraeg.




Fe fyddwn ni'n defnyddio'r cynllun hwn yn lle'r cynlluniau gwahanol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anawsterau/anableddau dysgu.

## Beth sy’n digwydd nawr

Efallai bydd gan plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anawsterau/anableddau dysgu:



- ddatganiad
- cynllun addysg unigol
- cynllun dysgu a medrau.

## Beth fydd yn digwydd â’r cynllun newydd hwn




Bydd pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY yn cael cynllun datblygu unigol.




Bydd y cynllun datblygu unigol yn dweud beth sydd ar y plentyn neu’r person ifanc ei angen er mwyn gallu dysgu. A beth fydd yn cael ei wneud er mwyn iddo gael y gefnogaeth iawn mewn ysgol neu goleg.



Mae’n rhaid i’r hyn sydd ar y plentyn neu’r person ifanc ei eisiau neu’r hyn mae’n ei feddwl a’i deimlo fod yn rhan o’r cynllun hwn.



Mae'n rhaid i rieni y plentyn neu ei ofalwyr teuluol fod yn rhan o bob penderfyniad sy'n cael ei wneud ar gyfer y cynllun hwn.




Bydd yn rhaid i blant, eu rhieni a phobl ifanc gael gwybodaeth am y cynllun hwn cyn unrhyw gyfarfod. Mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei rhoi mewn ffordd y gallan nhw ei deall.



Bydd yr awdurdod lleol, yr ysgol neu'r coleg yn ysgrifennu'r cynllun. Ond bydd pawb yn rhan o'i ysgrifennu gan gynnwys y plentyn neu'r person ifanc a'i:



- deulu



- staff o'r maes iechyd sy'n cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc



- staff o'r gwasanaethau cymdeithasol sy'n cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc



- unrhyw berson arall sy'n cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc.



Os yw plentyn ifanc yn mynd i feithrinfa sydd ddim yn cael ei redeg gan ysgol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ysgrifennu'r cynllun a chefnogi'r plentyn.




Bydd y plant, eu rhieni neu'r bobl ifanc yn cael copi o'r cynllun.




Weithiau efallai nad yw ysgol neu goleg yn meddwl y gallan nhw gefnogi ADY y plentyn neu'r person ifanc. Yna gallan nhw ofyn i'r awdurdod lleol ysgrifennu'r cynllun.



Mae arnon ni eisiau i'r cynllun gael ei ddefnyddio gan bawb. Mae arnon ni eisiau i bobl feddwl am bob rhan o fywyd y plentyn neu'r person ifanc yn y cynllun.

Bydd y cynllun datblygu unigol yn cael ei wirio:



- bob 12 mis



- pan fydd rhywun yn gofyn iddo gael ei wirio neu



- pan fydd unrhyw beth ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc yn newid.




Gall awdurdodau lleol ysgrifennu a gwirio’r cynllun datblygu unigol gyda chynlluniau eraill sy’n cael eu hysgrifennu yr un pryd.



Gall cynlluniau eraill fel cynlluniau iechyd gael eu gwirio a’u cynnwys yn y cynllun datblygu unigol.




Mae’n rhaid i awdurdodau lleol edrych o hyd a yw’r cynllun datblygu unigol yn gweithio ar gyfer y rhai sydd â chynllun.




Os bydd plentyn neu berson ifanc yn symud i ysgol, coleg neu awdurdod lleol gwahanol, bydd eu cynllun yn symud gyda nhw.

Bydd yr ysgol newydd, y coleg neu’r awdurdod lleol yn gofalu am y cynllun ac yn cefnogi y plentyn neu’r person ifanc.



Mae’n rhaid i’r ysgolion a’r colegau geisio cefnogi plant a phobl ifanc tra bydd eu cynllun datblygu unigol yn cael ei ysgrifennu.

# Rhoi’r gorau i gynlluniau




Gall awdurdod lleol, ysgol neu goleg roi’r gorau i gadw cynllun datblygu unigol os nad oes mo’i angen bellach.

Mae’n rhaid iddyn nhw ddweud wrth y person ifanc neu’r plentyn a’u rhieni:



- eu bod yn meddwl rhoi’r gorau i’r cynllun
- pam maen nhw’n meddwl gwneud hyn.



Os ydych chi am iddyn nhw barhau â’r cynllun, bydd gennych chi hyn a hyn o amser i ddweud wrthyn nhw. Bydd yr awdurdod lleol yn dweud wrthych chi faint o amser sydd gennych chi i wneud hyn.



Bydd yr awdurdod lleol yn gwrando arnoch chi. Wedyn fe fyddan nhw’n dweud wrthych chi a fydd y cynllun yn dod i ben ai peidio.




Os bydd angen, bydd cynllun yn gallu cael ei gadw nes bod person ifanc yn 25 oed.



Bydd cynllun yn dod i ben pan fydd y person ifanc yn 25 oed os byddan nhw’n dal mewn addysg. Mae’n rhaid i’r cynllun orffen cyn eu pen-blwydd yn 26 oed.

# Gwneud y gorau bosibl ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY



Mae arnon ni eisiau i blant a phobl ifanc sydd ag ADY gael y mwyaf y gallan nhw o'r feithrinfa, yr ysgol, neu'r coleg.



Dydy o ddim yn ddigon cael cynllun yn unig. Bydd gan bob ysgol neu goleg berson sydd â'r swydd o wneud yn siŵr:

- bod gan bob plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY gynllun



- bod beth sydd yn y cynllun yn cael ei wneud



- bod y cynllun yn helpu'r plentyn neu'r person ifanc i wneud pethau'n well.



Bydd y person yn cael ei alw'n **gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol**.




Os bydd yr ysgol yn fach, gall rannu'r swydd hon ag ysgol arall.




Rydyn ni'n meddwl ei bod hi'n well i blant sydd ag ADY fod yn eu hysgol leol er mwyn iddyn nhw gael eu dysgu gyda'i gilydd.



Mae'n rhaid i ysgolion lleol wneud yn siŵr bod plant sydd ag ADY yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau gyda phlant eraill yn yr ysgol.

Ond weithiau buasai'n well i'r plentyn fynd i ysgol gwahanol.

Buasai plentyn yn mynd i ysgol arall dim ond os:



- yw'r ysgol arall yn well ar gyfer anghenion y plentyn



- gallai ADY y plentyn ei gwneud hi'n anodd i rai eraill yn y dosbarth ddysgu.



Mae'n rhaid i awdurdodau lleol feddwl beth fyddai orau i'r plentyn.




Nid yw rhai ysgolion a cholegau yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol.




Mae'n rhaid i awdurdodau lleol dalu i blant a phobl ifanc fynd iddyn nhw. Yr unig adeg y bydd hyn yn digwydd yw pan na fydd yr ysgol leol yn medru rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar y plentyn neu'r person ifanc.



Mae'n rhaid i'r ysgolion a'r colegau hyn brofi eu bod nhw'n gallu rhoi cefnogaeth i blentyn sydd ag ADY. Yna byddan nhw'n mynd ar gofrestr neu restr Llywodraeth Cymru. Dim ond yr ysgolion a'r colegau sydd ar y gofrestr neu'r rhestr y gellir talu amdanyn nhw.



Bydd y rhestr ar gyfer ysgolion a cholegau yng Nghymru a Lloegr.



Bob blwyddyn mae'n rhaid i awdurdodau lleol edrych a ydyn nhw'n gallu cwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn eu hardal.




Mae'n rhaid iddyn nhw feddwl a oes digon o wasanaethau ar gael yn Gymraeg.

# Pawb yn gweithio gyda'i gilydd

Bydd pob gwasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd ar gyfer plentyn sydd ag ADY. Mae hyn yn meddwl:



- yr awdurdodau lleol




- meithrinfeydd, ysgolion a cholegau



- iechyd



- unrhyw wasanaeth arall y mae'r plentyn yn ei ddefnyddio, fel gwasanaeth carchar.



Fe fyddan nhw'n rhannu gwybodaeth â'i gilydd. Fe fyddan nhw'n dweud wrth ei gilydd beth maen nhw'n wneud.




Bydd yr awdurdod lleol, yr ysgol neu'r coleg yn gyfrifol am wneud y cynllun datblygu unigol. Fe fyddan nhw'n gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio.



Bydd pob rhan o'r cynllun yn cael eu gwirio i wneud yn siŵr eu bod nhw'n mynd gyda'i gilydd ac yn gweithio'n dda.



Mae hyn yn bwysig iawn ar gyfer **plant sy'n derbyn gofal**.

Mae **plant sy'n derbyn gofal** mewn gofal ac efallai eu bod mewn cartref maeth.

## Gwasanaethau iechyd



Mae gan rai plant a phobl ifanc broblemau iechyd a all roi ADY iddyn nhw.



Mae'n rhaid i'r GIG weld a oes gwasanaeth neu driniaeth fydd yn helpu'r plentyn neu'r person ifanc yn eu dysgu. Os oes, mae'n rhaid i'r GIG ddarparu'r gwasanaeth neu'r driniaeth.




Bydd arnyn nhw angen gweld a yw'r gwasanaeth neu'r driniaeth angen cael ei darparu yn Gymraeg.

Bydd gan bob ardal iechyd yng Nghymru berson gyda'r gwaith o:



- siarad â phob gwasanaeth am gynlluniau



- bod yn berson sy'n trefnu pethau'n ymwneud â iechyd



- gwneud yn siŵr bod staff iechyd yn gwneud beth mae'r cynllun yn ei ddweud.



Bydd y person hwnnw'n cael ei alw'n **Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig**.



Weithiau mae staff iechyd yn gofalu am blant sydd ddim yn ddigon hen ar gyfer yr ysgol.



Pan fydd staff iechyd yn meddwl bod y plentyn ag ADY gallan nhw siarad â'r awdurdod lleol. Mae'n rhaid iddyn nhw ddweud wrth rieni y plentyn eu bod nhw'n gwneud hyn.



Os bydd plentyn, ei riant neu berson ifanc yn anghytuno â'r hyn y mae'r GIG yn ei ddweud, fe allan nhw wneud cwyn.

Gall y gŵyn gael ei gwneud trwy ddefnyddio proses 'Gweithio i Wella' y GIG.




Mae gan y GIG wybodaeth am 'Gweithio i Wella' ar eu gwefan.

Y cyfeiriad yw www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella

# Pan na fydd pobl yn cytuno ynghylch y cynllun



Mae arnon ni eisiau rhwystro unrhyw anghytuno ynghylch cynllun y plentyn neu gynllun y person ifanc. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn cael cefnogaeth i:



- ddeall y cynllun



- bod yn rhan o ysgrifennu'r cynllun



- bod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw yn y cynllun



- siarad am eu pryderon



- cael ateb i'w cwestiynau.



Efallai bydd pobl yn dal i anghytuno. Mae angen rhoi trefn ar hyn yn gyflym ac yn lleol. Os na fydd rhywun yn cytuno â pheth o'r cynllun, mae'n rhaid i awdurdodau lleol:



- wneud yn siŵr bod rhywun sydd ddim yn rhan o'r anghytuno yn medru gwrando a helpu




- gwneud yn siŵr bod plant, eu rhieni a phobl ifanc yn gwybod bod hyn yn bosibl.



Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gael ffyrdd o roi trefn ar anghytundebau yn gyflym fel bo plant, eu rhieni a phobl ifanc yn medru ymddiried ynddyn nhw.



Bydd hyn yn helpu plant, eu rhieni a phobl ifanc i beidio â gorfod **apelio**.

Rydych chi'n **apelio** os ydych chi'n gofyn i rywun newid penderfyniad.



Ar y funud, os nad yw rhieni'n hoffi'r datganiad neu ddim yn cytuno â phenderfyniadau am y datganiad fe allan nhw apelio.




Dim ond os ydyn nhw'n mynd i ysgol y gall pobl ifanc apelio. Allan nhw ddim apelio os ydyn nhw'n mynd i goleg.



Yn y dyfodol bydd pobl ifanc sy'n mynd i goleg, hefyd yn gallu apelio. Bydd plant, eu rhieni a phobl ifanc yn gallu apelio os nad ydyn nhw'n cytuno â'r penderfyniadau ynghylch ADY neu'r cynllun datblygu unigol.



Mae arnon ni eisiau rhoi trefn ar broblemau cyn gynted â phosibl fel nad ydyn nhw'n gorfod apelio.



Gall y plentyn neu'r person ifanc gael **eiriolwr** i'w helpu i roi trefn ar broblemau ac apelio.

Mae **eiriolwr** yn rhywun sy'n siarad ar eich rhan.



Mae'n rhaid i'r eiriolwr fod yn rhywun sydd ar wahân i'r awdurdod lleol. Efallai y daw'r eiriolwr o wasanaeth eiriolaeth yn yr ardal.

Gall yr eiriolwr helpu i wneud pethau fel:



- meddwl am yr apêl a rhoi cyngor ynghylch beth sy'n gallu cael ei wneud



- ysgrifennu llythyrau



- mynd i gyfarfodydd i siarad ar ran y plentyn neu'r person ifanc.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am eiriolwyr. Mae'r bobl hyn yn cynnwys:



- plant a'u rhieni



- pobl ifanc



- ffrindiau achos




- ysgolion



- colegau



- pobl eraill a allai fod â diddordeb mewn eiriolwyr.



Weithiau efallai na fydd y plentyn yn gallu deall eu cynllun neu wneud penderfyniadau. Fel arfer bydd eu rhieni yn eu helpu. Ond weithiau nid yw hyn yn bosibl.

Pan na fydd hyn yn bosibl, bydd ar y plentyn angen rhywun i'w helpu. Bydd y person hwn yn cael ei alw'n **ffrind achos**.



Bydd y **ffrind achos** yn rhywun fydd yn:

- medru helpu plentyn i ddeall eu cynllun a
- gwneud penderfyniadau drostyn nhw.

Bydd ffrind achos yn rhywun fydd:

- yn deg ac yn gallu sefyll o blaid y plentyn



- yn gwrando'n dda ar yr hyn y bydd ar y plentyn ei eisiau



- yn dda am roi trefn ar bethau pan na fydd pobl yn cytuno



- yn dda am ddod o hyd i atebion i broblemau.



Rydyn ni'n gobeithio y bydd y ddeddf newydd yn ein helpu i ateb unrhyw broblemau yn fwy cyflym ac mewn ffordd haws.

# Hawl i apelio hawdd



Mae **tribiwnlys** ar gael yn barod ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Bydd hwn yn dal i fynd dan enw newydd – **Tribiwnlys Addysg Cymru**.

Mae **tribiwnlys** yn grŵp arbennig o bobl sydd â'r gwaith o ddelio ag anghytundeb.



Mae'r tribiwnlys yn gallu penderfynu os yw plentyn yn gallu deall eu cynllun ac yn gallu apelio. Os nad yw plentyn yn gallu deall, bydd y tribiwnlys yn gallu gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw ffrind achos.

Gall blentyn, ei riant neu berson ifanc apelio i'r tribiwnlys ynghylch:



- penderfyniad ynglŷn â pha ADY sydd gan blentyn neu berson ifanc



- awdurdod lleol yn penderfynu a oes ar blentyn neu berson ifanc angen cynllun



- pa gefnogaeth mae'r cynllun yn dweud sydd ar y plentyn neu'r person ifanc ei hangen




- yr ysgol mae'r cynllun yn dweud y dylai'r plentyn neu'r person ifanc fynd iddo




- dim ysgol yn cael ei enwi yn y cynllun



- penderfyniad i beidio â gwirio'r cynllun




- penderfyniad i beidio â dal ati gyda'r cynllun.



Mae'n rhaid i bawb gyd-fynd â phenderfyniad y tribiwnlys.




Mae unrhyw apêl yn erbyn y tribiwnlys yn gorfod bod ynghylch sut roedden nhw'n defnyddio'r gyfraith. Os oes angen, gall hyn fynd at dribiwnlys uwch.

# Rhieni sydd ddim yn gallu gwneud penderfyniadau

Weithiau nid yw rhieni yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch beth sydd orau ar gyfer eu plentyn. Gall hyn fod oherwydd bod ganddyn nhw:



- broblem iechyd meddwl. Mae hyn yn bod pan na fydd pobl yn teimlo'n dda yn eu meddyliau



- anabledd dysgu



- dementia. Mae hyn yn bod pan fydd gan bobl broblemau gyda'u cof ac yn gallu bod yn ddryslyd.



Y geiriau cyfreithiol am hyn yw 'ddim â'r **galluedd**'.

**Galluedd** yw medru gwneud penderfyniad neu ddewis arbennig ar adeg arbennig.




Mae'r **Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005)** yn dweud pan nad oes gan berson alluedd. Mae rheolau clir iawn ynghylch sut i benderfynu a oes gan berson alluedd.



Pan nad oes gan riant alluedd:

- gall y Llys Gwarchod benderfynu pwy fydd yn gwneud penderfyniadau am eu plentyn



- efallai bydd y rhiant yn barod wedi ysgrifennu pwy fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch y plentyn. Mae hyn yn cael ei alw'n **atwrneiaeth arhosol**.

# Rheolau a chyngor ynghylch y ddeddf newydd




Yn 2015 fe ysgrifennon ni set o reolau a chyngor ynglŷn â'r ffordd o ddefnyddio'r ddeddf newydd. Mae'r rhain yn cael eu galw'n **God**.

> Mae **Cod** yn rhoi rheolau a chyngor i helpu awdurdodau lleol a phobl eraill wneud beth mae'r ddeddf yn ddweud wrthyn nhw am wneud.



Rydyn ni'n diweddaru'r Cod. Os bydd y ddeddf newydd ynghylch ADY yn cael ei gwneud, fe fyddwn ni'n gofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl am y rheolau newydd yn y Cod. Rydyn ni'n meddwl y bydd hyn yn fuan yn 2018.



Yna fe fyddwn ni'n ysgrifennu'r Cod terfynol.



Bydd y Cod ar gyfer meithrinfeydd sy'n cael arian gan yr awdurdod lleol, staff mewn ysgolion a cholegau, awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd.

Bydd y rheolau yn eu helpu i:



- ddeall pethau ynghylch ADY



- cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag ADY



- ysgrifennu'r cynllun datblygu unigol




- rhoi'r cynllun datblygu unigol ar waith




- gwirio'r cynllun datblygu unigol



- rhwystro anghytundebau rhag digwydd.



Bydd y Cod hefyd yn dweud sut y bydd eiriolaeth yn cael ei wneud os bydd angen.

Fe fyddwn ni'n siarad am y rheolau â:



- chynghorau



- meithrinfeydd sy'n cael arian gan yr awdurdod lleol




- ysgolion



- colegau

- Estyn, sy'n arolygu ysgolion a cholegau yng Nghymru



- pobl eraill sydd â diddordeb yn y Cod.

# Plant sy’n derbyn gofal





**Mae plant sy’n derbyn gofal**:

- mewn gofal

- mewn cartref maeth efallai. Mae hyn pan fydd plentyn yn byw gyda theulu arall.



Mae llawer o blant sy’n derbyn gofal ag ADY.




Mae gan blant sy’n derbyn gofal gynllun addysg personol. Bydd y cynllun datblygu unigol yn rhan o’r cynllun addysg personol.



Mae hyn yn meddwl na fydd rhaid i’r plant hyn fynd i gyfarfodydd ar wahân ynglŷn â’u cynlluniau.




Mae’n rhaid i’r awdurdod lleol ysgrifennu ac adolygu cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn mae’n gofalu amdano sydd ag ADY. Mae’n rhaid iddo gefnogi’r plentyn.



Pan fydd awdurdod lleol yn gwneud penderfyniadau ynghylch cynllun datblygu unigol plentyn, mae'n rhaid iddo ddweud wrth **swyddog adolygu annibynnol** y plentyn.

Mae **swyddog adolygu annibynnol** yn rhywun sy'n gwneud yn siŵr bod plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei drin yn deg.



Gall plentyn sy'n derbyn gofal neu ei riant anghytuno â'r cynllun datblygu unigol. Os bydd hyn yn digwydd, fe allan nhw apelio i'r tribiwnlys.

# Plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw yn y ddalfa



Mae plentyn neu berson ifanc yn cael ei **gadw yn y ddalfa** pan fydd wedi torri'r gyfraith ac mae'n rhaid iddo aros mewn lle sy'n cael ei gadw ar glo.



Dim ond llysoedd sy'n cael dweud bod yn rhaid i blant a phobl ifanc fynd i'r mannau hyn.




Weithiau mae gan blentyn neu berson ifanc ADY yn barod. Yna bydd yr awdurdod lleol ble mae'r plentyn neu'r person ifanc yn byw yn gwneud yn siŵr bod eu cynllun yn cael ei gadw iddyn nhw.




Weithiau mae'r lle y mae'r plentyn ynddo yn gofyn a oes ADY gan y plentyn neu'r person ifanc.



Bydd yr awdurdod lleol ble mae'n byw yn penderfynu a oes ganddo ADY. Bydd yr awdurdod lleol hwnnw wedyn yn ysgrifennu cynllun datblygu unigol gyda'r plentyn neu'r person ifanc.



Bydd rheolwr y lle y mae'r plentyn ynddo yn rhan o'r holl benderfyniadau. Fe fydd yn cael copi o'r cynllun.



Pan fydd y plentyn neu'r person ifanc yn gadael y lle sydd ar glo, bydd awdurdod lleol y man ble mae'n byw yn dal ati gyda'i gynllun.



Gall plentyn sy'n cael ei gadw yn y ddalfa, ei riant neu berson ifanc anghytuno â'r cynllun. Mae ganddyn nhw'r un hawl i apelio ag unrhyw un arall.




Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylai'r gwasanaethau i helpu ag ADY y plentyn neu'r person ifanc gael eu darparu yn Gymraeg.

# Geiriau anodd

### Apelio / apêl

Rydych chi'n apelio os ydych chi'n gofyn i rywun newid penderfyniad.

### Awdurdod lleol

Awdurdod lleol yw'r Cyngor Sir. Mae'n darparu llawer o wasanaethau fel y gwasanaethau cymdeithasol, addysg, ffyrdd a chasglu sbwriel.

### Cadw yn y ddalfa

Mae plentyn neu berson ifanc yn cael ei gadw yn y ddalfa pan fydd wedi torri'r gyfraith ac mae'n rhaid iddo aros mewn lle sy'n cael ei gadw ar glo. Dim ond llysoedd sy'n cael dweud bod yn rhaid i blant a phobl ifanc fynd i'r mannau hyn.

### Cod

Mae Cod yn rhoi rheolau a chyngor i helpu awdurdodau lleol a phobl eraill wneud beth mae'r ddeddf yn ddweud wrthyn nhw am wneud.

### Cynllun datblygu unigol

Cynllun datblygu unigol yw'r enw ar y cynllun newydd fydd gan blant a phobl ifanc sydd ag ADY.

### Eiriolwr / eiriolaeth

Mae eiriolwr yn berson sy'n siarad ar eich rhan. Eiriolaeth yw pan mae rywun yn siarad ar eich rhan.

### Ffrind achos

Mae ffrind achos yn rhywun sy'n gallu helpu plentyn neu berson ifanc i ddeall eu cynllun, a gwneud penderfyniadau ar eu rhan, fel penderfynu apelio. Mae'n adnabod y plentyn neu'r person ifanc yn barod ac nid yw'n eiriolwr.

### Galluedd

Galluedd yw medru gwneud penderfyniad neu ddewis arbennig ar adeg arbennig.

### Plant sy'n derbyn gofal

Mae plant sy'n derbyn gofal mewn gofal ac efallai eu bod mewn cartref maeth.

### Swyddog adolygu annibynnol

Mae swyddog adolygu annibynnol yn rhywun sy'n gwneud yn siŵr bod plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei drin yn deg.

### Tribiwnlys

Mae tribiwnlys yn grŵp arbennig o bobl sydd â'r gwaith o ddelio ag anghytundeb.